



ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

11 Mai 2020

TEITL:	Dogfen Gynnig: Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru
AWDUR:	Carwyn Jones-Evans

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1. I ddod a'r ddogfen drafft terfynol "Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru" i sylw'r Bwrdd, yn amlinellu'r Cynllun Strategol Economaidd a'r Cynllun Bargen Twf ar gyfer sêl bendith.

2. Y Penderfyniad A Geisir

2.1. I gymeradwyo'r ddogfen derfynol ac i gytuno i'w gyflwyno i'r ddwy Lywodraeth i gychwyn y negydu ffurfiol.

3. Dogfen Gynnig: Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru

3.1. Ers cyfarfod diwethaf Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar 20 Tachwedd 2019, mae Aelodau wedi chwarae rhan blaenllaw yn natblygiad cynigion y rhanbarth i'r ddwy Lywodraeth. I ddatblygu sail ar gyfer ein Bargen Dwf ac hefyd i rannu ein gweledigaeth ehangach ar gyfer buddsoddiad yn y canolbarth – o amryw ffynhonnell ariannol.

3.2. Cyflwynir hyn drwy law'r ddogfen ynghlwm "Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru" sydd yn cynnwys dau ran:

- Adran 1: Cynllun Strategol Economaidd
- Adran 2: Cynllun Bargen Twf

3.3. Bydd Aelodau wedi bod yn rhan o ddatblygiad y ddogfen drwy gydol y cyfnod, gyda Cabinet y ddwy Awdurdod Lleol yn ystyried y ddogfen yn llawn ar 21 Chwefror a'r Grŵp Strategaeth Economaidd wedyn ar y 9fed of Fawrth.

3.4. Mae'r dogfen felly wedi ei adolygu i adlewyrchu y sylwadau a'r adborth dderbyniwyd yn y sesiynau hyn.

3.5. Mae'r ddogfen felly yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn cyfleu'r newidiadau hyn oll ac yn sefyll fel drafft terfynol bellach.

3.6. Er gwaethaf y pandemig Coronafeirws, mae'r ddogfen yn parhau i fod yn ddilys fel gwaelodlin cyn i'r firws gymryd effaith – ac mae'n amlinellu ein blaenoriaethau strategol yn glir ar gyfer cynhyrchu newid hir-dymor a chynaliadwy allai yrru ymdrechion i adfer yr economi a'i dyfu i'r dyfodol.

3.7. Mae'r ddogfen wedi ei anelu ar lefel uchel strategol yn fwriadol o ran y Fargen Dwf yn unol a'r trafodaethau blaenorol rydym wedi ei gael gyda'r ddwy Lywodraeth am ei ddatblygu yn raddol – drwy sicrhau fod y dystiolaeth yn gywir, sicrhau fod y trefniadau llywodraethu cywir i mewn lle, a fod dealltwriaeth a gweledigaeth glir ar gyfer Canolbarth Cymru.

3.8. Tra na ydym yn gwybod gwir effaith y firws eto ar yr economi, mae'n rhaid cydnabod y bydd angen cydlynu polisi sylweddol ac ymyrraeth gref gan y sector gyhoeddus ar draws sawl lefel o Lywodraeth i alinio adnoddau cyhoeddus prin i gwrdd a gwir chyfleoedd i adfer yr economi drwy wybodaeth lleol a rhanbarthol gref o anghenion busnesau a chymunedau. Bydd y pwysigrwydd o weithio ar y cyd ac ar gyfer y tymor hir yn hanfodol bwysig i adfer ein economi a'i dyfu i'r dyfodol yma yng Nghanolbarth Cymru.

4. Camau Nesaf

4.1. Unwaith fydd y ddogfen yn cael ei gymeradwyo fel drafft terfynol, bydd yn cael ei gyflwyno yn ffurfiol ar ran y ddwy Arweinydd i geisio cyfarfod gwleidyddol gyda'r ddwy Lywodraeth i dderbyn adborth ac ymgynghori ar y camau nesaf.

5. Atodiad

5.1. Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru (Cynllun Economaidd Strategol a Cynllun Bargaen Dwf).